# Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth 2016-2017
# Crynodebau o Brosiectau Cymeradwy

## Prosiectau Gogledd Cymru

### Dream Team Television – Hyrwyddo Ras Iotiau'r Tri Chopa

Mae Ras Iotiau'r Tri Chopa'n un o'r deg ras orau yn y byd ac eleni mae rhaglen ddogfen wedi'i chreu gan S4C i ddilyn anturiau tîm lle mae 2 aelod yn llysgenhadon Blwyddyn Antur Cymru (Elin Haf Davies a Lowri Morgan). Nod y prosiect yw ailffurfio'r rhaglen ddogfen ar gyfer y DU a'r farchnad ryngwladol, hyrwyddo Cymru fel lleoliad antur, a pharhau i hyrwyddo cynaliadwyedd y ras, creu nawdd yn y dyfodol a hyrwyddo campau hwylio a mynydda yng Nghymru. Bydd S4C yn ailolygu eu lluniau a ddarlledwyd ar 13 Gorffennaf 2016 i greu fersiwn Saesneg a gaiff ei ddarlledu'n hwyrach yn 2016, gan wneud hyn yn gyfle unigryw.

### Cyngor Sir Ddinbych – Cam Dau MBWales.com

Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar y prosiect cam un, a oedd yn cynnwys ail-lansio MBWales.com a'i rhwydwaith o sianeli cyfryngau cymdeithasol, ailsefydlu MBWales.com fel yr awdurdod arweiniol a'r wefan swyddogol ar gyfer beicio mynydd yng Nghymru. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo MBWales fel y ganolfan ar gyfer yr holl wybodaeth beicio mynydd yng Nghymru a hyrwyddo cyfleusterau ger y canolfannau beicio mynydd mewn ymdrech i annog pobl i aros yn hwy a chyfrannu i dwf twristiaeth.  Bydd y prosiect yn parhau i ychwanegu gwerth at ymgyrch Blwyddyn Antur a bydd yn cyflwyno ychydig o antur i'r Flwyddyn Chwedlau.

### Twristiaeth Gogledd Cymru – Gerddi Gogledd Cymru

Nod y prosiect hwn yw adeiladu ar waith a wnaed yn 2016 i hyrwyddo gerddi Gogledd Cymru. Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi denu detholiad sylweddol o erddi sydd am gymryd rhan gan gynnig Gŵyl Gerddi naw diwrnod unigryw i Ogledd Cymru ac annog ymwelwyr i aros ac ymweld â gerddi yn ystod y misoedd ystlys gyda digwyddiadau cyffrous ac arloesol yn cael eu cynnal dros naw diwrnod. Nod y prosiect yw; datblygu'r ymgyrch arloesol hon sy'n 'unigryw i Ogledd Cymru' ymhellach trwy barhau i ddatblygu brand unigryw hirdymor i gael y sylw mwyaf o ran cysylltiadau cyhoeddus, gweithgarwch gwasg a marchnata a gwefan, datblygu llwybr gerddi, datblygu a hyrwyddo Gŵyl y Gerddi.

### Twristiaeth Gogledd Cymru – Golff Gogledd Cymru

Nod yr ymgyrch hon ar sail cynnyrch yw gwella a hyrwyddo golff ledled y rhanbarth, cefnogi safle Cymru fel cyrchfan rhagoriaeth golff i'r gymuned golffio yn y DU a thramor gyda'r brand 'Golff fel y dylai fod'. Bydd marchnata'r holl glybiau golff gyda'i gilydd yn sicrhau mwy o effaith ac yn cael y sylw mwyaf o ran y wasg a chysylltiadau cyhoeddus.  Mae'r nodau a'r amcanion yn cynnwys; datblygu pecynnau golff i fywiogi chwedlau o'r gorffennol a'r presennol ac i ysbrydoli aelodau eraill o'r gymuned golffio i ymweld â'r ardal a'i darganfod, hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau y tu allan i'r tymor, datblygu gŵyl golff newydd ym mis Mawrth 2017.

### Siambr Fasnach Conwy – Y Twrnamaint

Nod y prosiect a arweinir gan Siambr Fasnach Conwy gyda chymorth Cyngor Bwrdeistref Conwy, Cadw a busnesau lleol yw bywiogi hanes a chynyddu refeniw twristiaeth i'r ardal yn ystod adeg dawel o'r flwyddyn yn draddodiadol. Bydd y prosiect yn datblygu ac yn cynnal digwyddiad mawr am ddim yn nhref Conwy ar 24/25 Mehefin 2017 o'r enw "Y Twrnamaint", yn ystod ymgyrch Blwyddyn Chwedlau 2017.  Bydd y digwyddiad yn cynnwys arddangosiad/cystadleuaeth ymwan, gwersylloedd hanes byw, marchnad ganoloesol, dreigiau,

cellweiriwyr a diddanwyr stryd eraill. Yn ychwanegol, bydd gwledd ganoloesol ar Gei Conwy, Dathliadau Noswyl Ganol Haf Ganoloesol Gymreig sy'n cynnwys perfformiad o A Midsummer Night's Dream.

**Ymddiriedolaeth Datblygu Theatr Clwyd – Llyn Iâ Dros Dro a Phrosiect Nutcracker**
Hoffai Ymddiriedolaeth Datblygu Theatr Clwyd a'i phartneriaid osod llyn iâ dros dro'n agos i Theatr Clwyd o 1 Rhagfyr 2016 – 1 Ionawr 2017. Bydd y prosiect yn bont i fynychwyr celfyddydau newydd, sglefrwyr iâ newydd ac anturwyr newydd – yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Bydd y cwmni theatr arobryn Paperfinch yn cyflwyno'r profiad llyn iâ ynghyd ag addasiad newydd, cyffrous o The Nutcracker sy'n benodol i'r safle. Gan ddechrau ar yr iâ, bydd y sioe'n mynd â chynulleidfaoedd ar daith, yn darganfod cliwiau ac yn cwrdd â chymeriadau hynod ar y llyn cyn arwain at berfformiad theatr cartrefol y tu mewn i Theatr Clwyd. Nod y prosiect yw denu ymwelwyr newydd, chwalu'r rhwystrau sy'n gallu bodoli i bobl sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau am y tro cyntaf, a dod â theuluoedd ac ysgolion ynghyd.

**Eryri Bywiol – Chwedlau Tirwedd - Profiadau Dros Dro**
Eryri Bywiol fydd yn cyflwyno'r prosiect hwn, gan adeiladu ar lwyddiant cyfres antur dros dro 2016. Nod y prosiect yw defnyddio'r cymysgedd cyfoethog o hanes a threftadaeth sy'n gysylltiedig â thirweddau eiconig Cymru i hyrwyddo twristiaeth antur awyr agored unigryw ym Mlwyddyn Chwedlau 2017. Bydd y prosiect profiadau dros dro'n cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau i ymwelwyr yn cysylltu antur a chwedlau. Bydd rhai'n cynnwys antur annisgwyl mewn lleoliadau chwedlonol megis cestyll. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd/cyfryngau cymdeithasol i ychwanegir gwerth at ymgyrch Blwyddyn Chwedlau.

**Llŷn Pilgrim Way Holidays Ltd – Hyrwyddo Arloesi Gwyliau Cerdded Llwybr Arfordir Cymru**
Nod y prosiect hwn yw galluogi Cymdeithas Darparwyr Gwyliau Cerdded Llwybr Arfordir Cymru i gynnig pecynnau gwyliau cerdded o safon, gan gynnwys; llety a throsglwyddo bagiau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (LlAC) cyfan, fideo a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo datblygiad cyfan Llwybr Arfordir Cymru a hyrwyddo llwybrau geo-gelcio, datblygu cynnwys gwefan LlAC.

**Synergy Yachting Ltd – Y Map Antur - Chwedlau**
Mae'r cais hwn ar ran y Map Antur, sef prosiect hyrwyddol cydweithredol rhwng 10 cwmni antur blaenllaw. Mae'r prosiect yn dilyn prosiect 2015/16 i greu porth credadwy, clir ac ysbrydoledig i ddenu ymweliadau grŵp i Ogledd Cymru yn ystod Blwyddyn Antur, Blwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr. Ar gyfer Blwyddyn Chwedlau 2017, caiff y porth ei gefnogi gan ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus gyda rhai deunyddiau print dethol a gweithgareddau marchnata cymdeithasol a fydd yn gwneud yn fawr o'r cysylltiadau rhwng cymunedau ar-lein mewn marchnata amser real.

## Prosiectau Canolbarth Cymru

**Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crucywel (CAGC) – Chwedlau o Grucywel a Thu Hwnt**

Nod y prosiect yw defnyddio thema Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru i alluogi hyrwyddo neges gyson trwy greu arddangosfa deithiol o greaduriaid ffabrig tecstilau o'r Mabinogion, wedi'u gwneud â llaw gan yr artist lleol Helly Powell gan ddefnyddio carthenni o Felin Tregwynt yn Hwlffordd. Bydd y daith yn dechrau yn Hwlffordd ac yn gorffen yng Nghrucywel gan ymweld â lleoliadau ar hyd yr hen lwybr coetsys. Bydd arddangosfeydd digidol yn cael eu defnyddio i ddod â straeon y Mabinogion yn fyw.

**Y Gorau o Gymru Cyf. – Profiad Glampio Cymru - Glampio Chwedlonol Cymru**

Bydd y prosiect yn datblygu casgliad o unedau glampio safon "aur" 'sydd wedi'u dylunio gan benseiri/dylunwyr o Gymru i greu gwesty Cymreig (h.y. casgliad o unedau) sy'n gwbl unigryw a symudol. Bydd y gwesty 'dros dro' yn ymddangos mewn 3 lleoliad gwahanol dros 3 mis (un y mis) yn ystod 2017 - Blwyddyn Chwedlau Cymru. Un o brif amcanion y prosiect yw denu sylw'r byd i gyfoeth tirwedd ac anian Cymru. Mae'r lleoliadau i gyd yn drawiadol ac yn cynrychioli De, Canolbarth a Gogledd Cymru yn yr un modd.

**Partneriaeth Cwm Ecodyfi – Chwedlau Bïosffer Dyfi**

Bydd y prosiect yn datblygu ac yn hyrwyddo cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu nodweddion diwylliannol unigryw ardal Bïosffer Dyfi, yn enwedig chwedlau, straeon a chymeriadau, er mwyn bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar weddill Blwyddyn Chwedlau yn 2017.

**Twristiaeth Bannau Brycheiniog – Profiadau Chwedlonol yn y Bannau**

Nod y prosiect yw rhoi profiad go iawn i ymwelwyr â Bannau Brycheiniog sy'n dathlu Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru, y flwyddyn thematig ar gyfer 2017. Bydd y prosiect yn gweithio gyda masnach twristiaeth Bannau Brycheiniog ac yn ceisio helpu i wella enw da Cymru am ddiwylliant unigryw, treftadaeth gyfoethog a digwyddiadau a gwyliau o'r radd flaenaf mewn ffordd arloesol newydd.

**Theatr Byd Bychan – Aberteifi Greadigol**

Bydd y prosiect yn atgyfnerthu brand Cymru trwy greu cyfleoedd arloesol, deniadol, creadigol a manwerthu i ymwelwyr achub arnynt yn ardal Aberteifi yn chwarter olaf Blwyddyn Antur gan arwain at Flwyddyn Chwedlau.

Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y prosiect yn creu cyfoeth o atgofion cadarnhaol newydd o ymweld â Chymru, gan gynnwys digwyddiadau hyd diwrnod megis yr antur arswydus orau a gorymdaith lusernau fawr. Nod y prosiect hwn yw denu ymwelwyr arenillion uchel a thymor ystlys trwy ddarparu gweithgareddau nad ydynt yn dibynnu ar y tywydd ac sy'n rhoi rhesymau cymhellol dros ymweld â Chymru yn yr hydref a'r gaeaf.

## Prosiectau De-ddwyrain Cymru

**Cymdeithas Twristiaeth Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena – Mythau, Llên Gwerin a Chwedlau Dyffryn Gwy**

Mae'r prosiect hwn yn arddangos, yn esbonio ac yn cysylltu llên gwerin, mythau a chwedlau Dyffryn Gwy mewn ffordd fympwyol, hanesyddol a difyr i hwyluso datguddio, darganfod ac archwilio hanes chwedlonol yr ardal. Bydd y prosiect yn amlygu treftadaeth gyfoethog y cyrchfan o gynnyrch, digwyddiadau, dathliadau ac eiconau lleol ac yn datblygu cyfres o deithlyfrau'n seiliedig ar themâu a fydd yn galluogi'r ymwelydd i greu ei daith ei hun trwy ein llên gwerin a'n treftadaeth.

**Llenyddiaeth Cymru – Gwlad y Chwedlau – Twristiaeth Lenyddol yng Nghymru**

Mae Llenyddiaeth Cymru, mewn partneriaeth â chonsortiwm o gyrff treftadaeth genedlaethol ac amgylchedd naturiol Cymru'n datblygu canolfan newydd ar gyfer darganfod treftadaeth lenyddol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys:

- Llyfryn pen uchaf y farchnad sy'n cynnig teithlyfrau twristiaeth cyffyrddadwy wedi'u cyd-blethu â'r seilwaith twristiaeth presennol, ehangach sydd eisoes yn bodoli (h.y. bwyd, diod, gwestai, atyniadau, tirweddau Cymru) - i weithredwyr teithiau preifat tramor a grwpiau cyn-fyfyrwyr sy'n cynnal teithiau preswyl
- Gwefan sy'n cynnal llawer o gynnwys ehangach y llyfryn – wedi'i addasu i deithwyr annibynnol o Gymru a'r DU sy'n cynllunio'u teithiau eu hunain.

**Prosiectau De-orllewin Cymru**

**Clwb Golff Castell-nedd – Datblygu Llwybr Golff James Braid**

Bydd y prosiect yn cefnogi datblygu Llwybr Golff James Braid i geisio cynyddu nifer yr ymwelwyr golff â De-orllewin Cymru a chodi proffil twristiaeth golff yn yr ardal. Mae'r gweithgareddau penodol yn cynnwys creu gwefan Llwybr Golff James Braid i gysylltu â Blwyddyn Chwedlau, hyrwyddo'r wefan trwy fusnesau partner, creu sicrwydd cyfochrog i farchnata'r llwybr, creu cysylltiadau â llwybrau golff eraill yng Nghymru, a gwella sgiliau clybiau golff partner wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar y we.

**Cymdeithas Twristiaeth Sir Gaerfyrddin – Cyflwyno Cynnyrch Newydd Unigryw - Digwyddiadau Noson Gymreig**

Bydd y prosiect yn cefnogi cyflwyno cynnyrch newydd yn seiliedig ar ddigwyddiadau ‘Noson Gymreig’ a fydd yn canolbwyntio ar gyflwyno ‘Noson Gymreig’ reolaidd i galendr digwyddiadau Sir Gaerfyrddin, gan fynd i'r afael â bwlch a nodwyd yn yr hyn y mae'r sir yn ei gynnig i ymwelwyr, yn ogystal â ledled y rhanbarth. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol ac yn gweithio tuag at gyflwyno dwy nos â thema y gellir eu hyrwyddo trwy Fasnach Teithio a CruiseCymru.

**Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru – Anturiau a Chwedlau Cymru Wyllt**

Bydd y prosiect yn helpu i gyflwyno ymgyrch Anturiau a Chwedlau Cymru Wyllt (AChCW) a fydd yn hyrwyddo twristiaeth bywyd gwyllt Cymru ac yn cefnogi atyniadau eraill fel cynnig integredig i farchnad y ‘Teithiwr Teuluol Egnïol’ trwy ddetholiad o brofiadau unigryw i ymwelwyr. Mae'r prosiect hwn yn mynd ati i bontio'r bwlch rhwng ‘Blwyddyn Antur’ a ‘Blwyddyn Chwedlau’ trwy hyrwyddo atyniadau antur a'r rhai ag arwyddocâd chwedlonol i'n cynulleidfa darged flaenoriaethol.